

# Cymeriadau Difyr




| | |
|---|---|
| Agwedd: | **Adio – adio 1 at rifau hyd at 10.** |
| Adnoddau: | • Numicon.<br>• Cardiau rhifau hyd at 10.<br>• Cownteri/blociau.<br>• Peli a hwpiau a bwcedi.<br><br>**<u>Adnoddau digidol:</u>**<br>• Cyflwyniad digidol yn ar gyfer adio un – *gweler y ddogfen 'Adio 1 - cyflwyniad'.*<br>• Llinell rif ddigidol: https://cymeriadau-difyr-gemau.peniarth.cymru/ |
| Camau: | **<u>Cam 1 : Cyflwyniad</u>**<br>Edrych ar bob rhif o'r gyfres 'Cymeriadau Difyr'. Trafod eu henwau a'u gwerth.<br>Gofyn i amrywiol ddysgwyr chwilio am y nifer cywir o gownteri/blociau i gyfateb i werth y rhif.<br>Dangos bysedd i ddangos gwerth pob rhif.<br>Chwilio am numicon sy'n cyfateb i bob rhif.<br><br>**<u>Cam 2:  Adio 1</u>**<br>Edrych ar ran gyntaf y cyflwyniad digidol (1-10) a thrafod.<br>Gwneud pob un o'r gweithgareddau uchod (Cam 1) eto, ond y tro hwn, adio un at bob rhif.<br><br>**<u>Cam 3: Gweithgareddau</u>**<br>Gweithio gyda'r dysgwyr mewn grwpiau.<br>Rhoi gwrthrychau/numicon iddynt. Gofyn iddynt ddweud y rhif/nifer, yna adio un ato. Cyfrif eto er mwyn darganfod yr ateb.<br>Dweud y cyfrifiad allan yn uchel, e.e. 'Dau adio un yn hafal i 3'.<br><br>**<u>Cam 4: Clai</u>**<br>Rowlio peli o glai. Y dysgwyr i greu symiau +1 gyda'r peli – eu gosod ar fyrddau adio:<br> |



Peniarth .cymru

adnodd yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru supporting the Curriculum for Wales



| | |
|---|---|
| | **Cam 5: Ardal allanol**<br>Gosod 'symiau' ar gardiau ar lawr o flaen 3 hŵp, sydd â'r symbolau + a = wedi eu gosod rhyngddynt yn y llefydd cywir. Y dysgwyr i roi peli yn yr hwpiau i gyfateb i'r cyfrifiad, e.e. 3 phêl yn un hŵp, 1 bêl yn yr hŵp nesaf, ac yna 4 yn yr hŵp olaf (3+1=4).<br><br>**Cam 6: Peli/Bagiau ffa**<br>Peli/Bagiau ffa a bwced – rhoi niferoedd o beli/bagiau ffa hyd at 10 mewn amrywiol fwcedi. Gofyn i'r dysgwyr daflu un ychwanegol i fewn. Yna gofyn iddynt gyfri a chofnodi - Sawl un sydd yna nawr? |
| Cwestiynu: | • Faint yw _____ adio 1?<br>• Wyt ti'n gallu dangos 3 adio 1 i fi yn y clai?<br>• Sawl pêl sydd yma i gyd? |
| Beth nesaf? | • Adio 1 at rifau rhwng 10 ac 20.<br>• Adio 2 at rifau hyd at 5. |

